**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**CYFARFOD BLYNYDDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**18fed Mehefin 2012**

**PENODI AELODAU'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

## Cefndir

2 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub Bwyllgor Safonau. Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor.

3 Mae tri o'r aelodau annibynnol sydd ar y Pwyllgor yn byw yn Sir Ddinbych ac un aelod yn byw yng Nghonwy. Mae'r aelodau'n cynnwys dau ddyn a dwy fenyw ac mae un o'r dynion yn siarad Cymraeg.

4 Gellir penodi unrhyw aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

5 O dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, nid yw'r gofynion o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol, a nodir yn Rhan I Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn berthnasol ar gyfer y penodiadau hyn.

**Cyngor**

6 Mae unrhyw un o'r aelodau, ar wahân i'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd, yn gymwys ar gyfer cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor.

7 Ni waeth pa aelod a benodir, bydd yn rhaid iddynt wasanaethu hyd nes yr etholiadau cyffredinol lleol ym mis Mai 2017. Bydd cyfnod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben fel a ganlyn:

- 2 aelod annibynnol - tymor cyntaf yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2013 (bydd y ddau'n gymwys ar gyfer cael eu hailethol i wasanaethau am dymor arall)
- 1 aelod annibynnol - ail dymor yn dod i ben ym mis Medi 2014
- 1 aelod annibynnol - tymor cyntaf yn dod i ben ym mis Mawrth 2016
- 2 aelod o'r Awdurdod Tân - Mai 2017 (yn ddibynnol ar yr unigolion a benodir, bydd un aelod neu'r ddau yn gymwys ar gyfer cael eu hailethol i wasanaethu am dymor arall)

**Argymhelliad**

8 Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau hyd nes yr etholiadau cyffredinol yn 2017.